

Garddwriaeth Cymru



Garddwriaeth Cymru Horticulture Wales

Nod Garddwriaeth Cymru yw helpu tyfwyr a chynhyrchwyr i leihau gwastraff a gwella oes silff, cynaliadwyedd ac elw.

Wedi'n hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, mae Garddwriaeth Cymru yn darparu cymorth, cyngor a chyfarwyddyd am ddim a hefyd yn cyfeirio busnesau at gyllid.

Mae Garddwriaeth Cymru yn anelu at hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth, a chydweithio yng ngarddwriaeth Cymru, a helpu i hybu datblygiad cadwyn gyflenwi.

Rydym yn adnabod a datblygu clystyrau o fusnesau garddwriaeth, yn arbennig busnesau cynhyrchu bwyd a mwynderau, a allai weithredu mewn cadwyni cyflenwi byrion.

Mae'r Clwstrwr Cadwyn Gyflenwi Fer wedi sefydlu ei Glwstrwr cyntaf yng Ngogledd Ddwyrain Cymru gyda siopau cymunedol, siopau fferm ac eraill yn stocio nwyddau a gynhyrchir yn lleol. Maent bellach yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o'r adnoddau a rhannu arbenigedd.



Lansiwyd Clwstrwr Perillannau Treftadaeth Genedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2019, gan gydweithio ag IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth yng Ngogledd Cymru a bydd yn ymestyn ledled Cymru, i hyrwyddo plannu coed ffrwythau amrywiol o dreftadaeth Gymreig, i fapio perillannau ac annog cydweithrediad rhwng tyfwyr i archwilio marchnadoedd newydd a gwneud y gorau o osod prisiau.

Mae Clwstrwr Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd yn hwyluso sefydlu clwstrwr tyfwr/cynhyrchydd yn llwyddiannus yn dilyn y statws Enw Tarddiad Gwarchoddedig (PDO) a ddyfarnwyd iddynt yn ddiweddar.

Mae'r clystyrau yn cael eu cefnogi gan arbenigedd prifysgol a Llywodraeth ac yn ymdrechu i optimeiddio enillion economaidd i fusnesau, gwella oes silff cynnyrch, a thorri colledion cynaeafu.

Un o amcanion y prosiect yw datblygu partneriaethau rhwng addysg uwchradd, addysg bellach, addysg uwch, a busnesau garddwriaeth i hyrwyddo sgiliau a hyfforddiant ac annog

datblygiad proffesiynol parhaus.



Byddwn yn ymdrechu i hyrwyddo diwylliant o drosglwyddo gwybodaeth trwy'r cadwyni cyflenwi bwyd a diod.

Trwy ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, rydym yn hyrwyddo garddwriaeth yng Nghymru drwy gysylltu â busnesau a dathlu eu llwyddiannau wrth ddarparu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol.

Fel rhan o'r prosiect, mae Garddwriaeth Cymru yn cynnal ymchwil yn y meysydd lleihau gwastraff, pecynnu, logisteg, gwerthu, a rheoli stoc gyda'r nod o gynyddu oes silff a gwella trin cynnyrch.

Mae ein holl waith yn cyd-fynd yn strategol â pholisïau Llywodraeth Cymru ac yn ceisio hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Garddwriaeth Cymru, ewch i

www.horticulturewales.co.uk,
neu anfonwch e-bost i horticulturewales@glyndwr.ac.uk
www.glyndwr.ac.uk neu ffoniwch 01978 293401